

IRM Cymru
7 Cleeve House
Lambourne Crescent
Caerdydd
CF14 5GP
Ffôn: 0845 873 1305
Ffacs: 029 2076 4282
E-bost: irm@irmcymru.org.uk
Y We: www.irmcymru.org.uk

GWYBODAETH I YMGEISWYR AM IRM CYMRU

CAIS ADDASRWYDD I FABWYSIADU

BETH YW'R MECANWAITH ADOLYGU ANNIBYNNOL?

Mae'r Mekanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) yn broses adolygu y gall darpar fabwysiadwyr ei defnyddio pan na fyddant yn cytuno gyda'r dyfarniad o gymhwyster a roddwyd iddynt gan eu hasiantaeth fabwysiadu. Cynhelir y broses adolygu gan banel adolygu yn annibynnol ar asiantaethau mabwysiadu.

Mae "dyfarniad o gymhwyster" yn ddyfarniad a wneir gan asiantaeth fabwysiadu yn nodi ei bod o'r farn nad yw darpar fabwysiadwr yn addas i fabwysiadu plentyn, ac nad yw'n cynnig ei gymeradwyo ef neu ei chymeradwyo hi yn addas i fabwysiadu plentyn. Gallai dyfarniad o gymhwyster gael ei roi yng nghyswllt cais i fabwysiadu plentyn o'r DU neu o'r tu hwnt i Ynysoedd Prydain. Fe allai gael ei roi ar ôl i Adroddiad Darpar Fabwysiadwr llawn gael ei baratoi a'i ystyried gan y panel mabwysiadu a'r asiantaeth fabwysiadu, neu ble mae'r asiantaeth yn penderfynu, ar ôl adolygiad o'u cymeradwyaeth, i newid penderfyniad blaenorol i gymeradwyo'r darpar fabwysiadwr a bod hynny hefyd wedi'i ystyried gan y panel mabwysiadu.

PWY ALL YMGEISIO I GAEL ADOLYGIAD O'U HACHOS?

Darpar fabwysiadwyr sydd wedi derbyn dyfarniad o gymhwyster gan eu hasiantaeth.

Mae gan baneli adolygu annibynnol y pŵer cyfreithiol i ystyried adolygiadau yn ymwneud ag addasrwydd darpar fabwysiadwyr i fabwysiadu plentyn yn unig. Nid oes ganddynt y pŵer i ystyried ai mabwysiadu yw'r cynllun ar gyfer plentyn, a ddylai plentyn gael ei leoli gyda darpar fabwysiadwr penodol, na delio gyda chwynion yn erbyn yr asiantaeth fabwysiadu. Dylid delio â chwynion trwy weithdrefn gwyno'r asiantaeth.

A ALLAF I YMGEISIO I IRM CYMRU AM ADOLYGIAD AC ANFON SYLWADAU AT FY ASIANTAETH FABWYSIADU AR YR UN PRYD?

Na. Rhaid i chi ddewis rhwng anfon sylwadau at eich asiantaeth fabwysiadu NEU ymgeisio i IRM Cymru am adolygiad o ddyfarniad o gymhwyster yr asiantaeth fabwysiadu.

FELLY A ALL PANEL ADOLYGU WNEUD PENDERFYNIAD NEWYDD AM FY ACHOS?

Na. Nid yw'r panel adolygu yn uwch awdurdod apeliadau ac ni all droi dyfarniad yr asiantaeth fabwysiadu. Fe all wneud argymhelliad newydd i'ch asiantaeth ar eich addasrwydd i fabwysiadu plentyn. Os yw panel adolygu o'r farn eich bod yn addas i fabwysiadu, fe allai ystyried a rhoi cyngor i'ch asiantaeth am nifer y plant y gallech chi fod yn addas i'w mabwysiadu, eu hystod oed, rhyw, anghenion tebygol a chefnidir. Rhaid i'ch asiantaeth ystyried yr argymhelliad hwnnw wrth wneud ei benderfyniad terfynol.

Bydd y panel adolygu yn gwneud ei argymhelliad ar ôl iddo ystyried:

- y wybodaeth a roddwyd gerbron y panel mabwysiadu gwreiddiol;

- unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbyniwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu ar ôl i'r papurau gael eu hanfon at y panel mabwysiadu;
- Eich rhesymau dros ofyn am adolygiad.

Os yw'r panel adolygu angen gwybodaeth bellach, fe allai ofyn i'r asiantaeth ei chasglu, neu efallai y byddai'n fwy priodol gofyn i chi gasglu'r wybodaeth. Fe allai'r panel gael cyngor cyfreithiol a/neu feddygol hefyd.

PWY FYDD YN PENDERFYNU A WYF YN ADDAS I FABWYSIADU PLENTYN?

Eich asiantaeth fabwysiadu fydd yn penderfynu, ac mae'n rhaid iddi ystyried argymhellion y panel adolygu a'r panel mabwysiadu wrth wneud ei phenderfyniad terfynol ar eich addasrwydd i fabwysiadu plentyn.

SUT WYF YN GWNEUD CAIS?

Nid oes ffurflen benodol i'w defnyddio i wneud cais, ond rhaid i'ch cais fod yn ysgrifenedig a dylai gynnwys yr isod:

- eich rhesymau, h.y. pam eich bod yn anghytuno â dyfarniad eich asiantaeth fabwysiadu;
- dyddiad y llythyr y gwnaethoch ei dderbyn gan eich asiantaeth fabwysiadu a, lle fo'n bosibl, copi o'r llythyr;
- enw a chyfeiriad eich asiantaeth fabwysiadu, er mwyn i ni gael gwybodaeth ganddynt y bydd ei hangen ar y panel adolygu.

Rhaid i chi wneud eich cais o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad llythyr yr asiantaeth fabwysiadu. Gallwch anfon eich cais atom trwy'r post, ffacs neu e-bost, serch hynny, os byddwch yn anfon eich cais trwy ffacs neu e-bost fe fydd yn rhaid i chi anfon copi caled ar ôl hynny trwy'r post. Mae ein manylion cyswllt i'w gweld ar ddiwedd y wybodaeth hon. Mae'n bwysig nad ydych chi'n anfon eich cais at unrhyw gyfeiriad arall gan y bydd hyn yn oedi pa bryd y bydd y panel yn ystyried eich cais.

A FYDD POBL A EDRYCHODD AR FY ACHOS YN WREIDDIOL AR Y PANEL ADOLYGU?

Na. Er mwyn dangos annibyniaeth y panel adolygu, mae'r gyfraith yn rhestru sawl rheswm pam y gallai aelod o'r panel adolygu gael ei ddiarddel rhag ystyried adolygiad, er enghraifft, os yw'r aelod yn gyflogedig, neu wedi'i gyflogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan yr asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y dyfarniad o gymhwyster, neu os yw ef neu hi yn adnabod yr ymgeisydd yn bersonol neu'n broffesiynol, neu os wnaeth yr asiantaeth a roddodd y dyfarniad o gymhwyster osod plentyn i'w fabwysiadu gydag aelod o'r panel. Byddwch yn derbyn manylion aelodau'r panel a fydd yn ystyried eich achos a dylech ddweud wrthym os credwch chi na ddylai aelod panel adolygu penodol gael ei benodi i ystyried eich achos.

FELLY PWY FYDD YN YSTYRIED FY ACHOS?

Bydd eich achos yn cael ei ystyried gan banel adolygu y mae gan ei aelodau brofiad proffesiynol neu bersonol o fabwysiadu; efallai y bydd rhai aelodau yn fabwysiadwyr neu oedolion a gafodd eu mabwysiadu. Bydd y panel adolygu yn cynnwys o leiaf pum aelod gan gynnwys Cadeirydd, gweithwyr cymdeithasol ac ymarferydd meddygol.

Bydd gan y panel adolygu adroddiad ysgrifenedig ar eich achos gan ei Gynghorydd Cyfreithiol, a bydd rhywun - Cynghorydd Proffesiynol - yn gallu cynnig cyngor ar ddeddfwriaeth, arweiniad ac ymchwil i sicrhau bod yr holl faterion perthnasol yn cael eu hystyried a bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. Bydd Ysgrifennydd Panel yn bresennol i gymryd cofnodion o'r cyfarfod. Ni fydd yr Ysgrifennydd Panel, Cynghorydd Proffesiynol na'r Cynghorydd Cyfreithiol yn cymryd rhan yn y trafodaethau panel nac wrth lunio argymhelliad y panel adolygu.

BLE BYDD Y PANEL ADOLYGU YN CAEL EI GYNNAL?

Bydd paneli adolygu yn cael eu cynnal ym mha bynnag leoliad sydd fwyaf cyfleus i bawb. Byddwn yn ceisio cadw'ch teithio i bellter rhesymol.

A ALLAF I FYNYCHU'R CYFARFOD?

Gallwch. Fe fyddwch chi a'ch partner, os oes gennych chi un, yn cael eich gwahodd i fynychu cyfarfod y panel adolygu. Fe all ffrind ddod gyda chi hefyd. Rôl y ffrind yw cynnig cefnogaeth foesol i chi; ni all ef neu hi siarad ar

GWYBODAETH I YMGEISWYR AM IRM CYMRU Parhad....

eich rhan na gweithredu fel eiriolwr. Os oes gennych nam corfforol, nam ar y synhwyrau neu nam dysgu, neu os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, fe allwch chi ddod â chyfieithydd neu gynorthwywr gyda chi, yn ychwanegol at ffrind. Sylwer na allwn dalu unrhyw dreuliau i chi neu unrhyw ffrind neu gyfieithydd am fynychu'r cyfarfod.

Os ydych chi'n bwriadu dod â chyfieithydd i'r panel, bydd gan IRM Cymru gyfieithydd ar gael hefyd i gynghori'r panel.

Fe'ch gwahoddir i nodi eich achos a rhoi rhesymau dros anghytuno â'r dyfarniad o gymhwyster. Bydd aelodau o'r panel adolygu yn gallu gofyn cwestiynau i chi. Yna gofynnir i chi aros mewn ystafell aros wrth i'r panel drafod yr achos. Efallai y bydd y panel adolygu yn dymuno eich galw yn ôl i egluro unrhyw bwynt a phan fyddant yn siŵr bod ganddynt yr holl wybodaeth, byddant yn dweud wrthyhych y gallwch chi fynd. Efallai y bydd angen i chi fod ar gael am hyd at ddwy awr.

A FYDD UNRHYW UN ARALL YNO?

Bydd eich asiantaeth fabwysiadu yn cael ei gwahodd i anfon dau gynrychiolydd i gyfarfod y panel adolygu. Eu cyfrifoldeb hwy, wrth gwrs, fydd penderfynu pwy ddylai fynychu, ond disgwylwn iddynt anfon rhywun a fydd yn gallu ateb cwestiynau'r panel adolygu, fel arfer eich gweithiwr asesu neu weithiwr cymdeithasol a rheolwr.

RWYF WEDI AROS YN DDIGON HIR I GYRRAEDD Y PWYNT HWN. A FYDD YN RHAI D I MI AROS ETO I IRM CYMRU WRANDO FY ACHOS?

Anelwn at gwblhau bob achos o fewn tri mis i dderbyn y cais. Unwaith y byddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn dweud wrthyhych cyn gynted â phosibl o ddyddiad, amser a lleoliad cyfarfod y panel adolygu. Byddwn yn rhoi o leiaf mis o rybudd i chi. Os nad yw'r dyddiad yn gyfleus, gallwch ofyn am ddyddiad diweddarach. Os byddai'n well gennych deithio i leoliad arall, trafodwch hynny gyda ni, ond cofiwch na ellir talu am unrhyw gostau na threuliau teithio.

A FYDD YN RHAI D I MI DALU IRM CYMRU I ADOLYGU'R DYFARNIAD O GYMHWYSTER?

Na. Bydd eich asiantaeth fabwysiadu yn talu am gostau'r adolygiad.

BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL Y GWRANDAWIAD?

Byddwn yn anfon copi o argymhelliad y panel adolygu atoch chi a'ch asiantaeth fabwysiadu. Bydd yr asiantaeth fabwysiadu wedyn yn ysgrifennu atoch chi yn eich hysbysu o'i phenderfyniad terfynol.

BETH OS WYF YN PARHAU'N ANHAPUS Â PHENDERFYNIAD YR ASIANTAETH FABWYSIADU?

Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad eich asiantaeth fabwysiadu. Os ydych chi'n parhau'n anfodlon, dylech geisio eich cyngor eich hun, gan, er enghraifft, cyfreithiwr neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth, ynglŷn â pha gamau y gallech eu cymryd.

BETH OS WYF EISIAU CWYNO AM IRM CYMRU?

Mae gweithdrefn gwyno ffurfiol ar gael i chi ei defnyddio ac mae'n amlinellu'r camau y dylech eu cymryd. Mae i'w chael gan swyddfa IRM Cymru.

MANYLION CYSWLLT IRM CYMRU

Rheolwr Cytundeb
Mecanwaith Adolygu Annibynnol Cymru
7 Cleeve House
Lambourne Crescent
Caerdydd
CF14 5GP

Ffôn: 0845 873 1305
Ffacs: 029 2076 4282
E-bost: irm@irmcymru.org.uk
Y We: www.irmcymru.org.uk